**Effaith y Gyllideb ar eich Agenda Darlledu**

Annwyl Weinidogion,

Rydym yn ysgrifennu er mwyn gofyn cwestiwn am oblygiadau'r toriadau arfaethedig o £1.1 miliwn i linell gwariant 'darlledu a'r cyfryngau' yn y gyllideb drafft a gyhoeddwyd gennych y mis hwn. Byddem yn ddiolchgar os gallech ateb y cwestiynau canlynol:

- Ai'r llinell gwariant hwn sydd i fod i dalu am y cynigion a gyhoeddwyd gennych mewn datganiad ysgrifenedig ar 12 Mawrth eleni i sefydlu Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu?
- Sut ydych chi'n cynllunio i fwrw ymlaen â'ch cynigion am y Corff Darlledu a Chyfathrebu newydd yn sgil eich cynigion cyllidebol newydd, a beth yw'r amserlen ar gyfer hynny?

Ers y cyhoeddiad yn 2021 bod Llywodraeth Cymru yn credu 'y dylai pwerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i'r Senedd' a chanfyddiadau'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru y dylai 'gwaith cadarn barhau ar lwybrau posibl at ddatganoli' darlledu, rydym wedi bod yn falch bod cefnogaeth drawsbleidiol i'n hymgyrch dros sicrhau pwerau darlledu a chyfathrebu i'n Senedd.

Yn wyneb y diffyg gwybodaeth am ein gwleidyddiaeth a'r cynnydd brawychus mewn camwybodaeth beryglus sy'n cyfrannu at dwf grymoedd yr adain dde eithafol a ganietir gan y system 'reoleiddio' neo-ryddfrydol ddiffygiol sydd gennym, gobeithiwn yn fawr y byddwch yn parhau i symud ymlaen â'ch cynigion am Gorff Darlledu a Chyfathrebu er lles democratiaeth a diwylliannau Cymru.

Yn hynny o beth byddem yn ddiolchgar petai chi'n gallu dweud pryd fydd cyhoeddiad am benodi aelodau i'r Corff Darlledu a Chyfathrebu ac amserlen ar gyfer eu gwaith.

Yr eiddoch yn gywir,

Carl Morris
Cadeirydd, Grŵp Digidol, Cymdeithas yr Iaith

Copi at: Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant y Senedd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Jane Dodds AS; Llefarydd Plaid Cymru ar Ddarlledu, Heledd Fychan AS